# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Chwefror 2017

Amser: 09.01 - 12.28

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3846

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Janet Finch-Saunders AC<br>Siân Gwenllian AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Rhianon Passmore AC<br>Jenny Rathbone AC<br>Joyce Watson AC |
| Tystion: | Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth<br>Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Maureen Howell, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Christopher Warner (Clerc) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

| | |
|---|---|
| | Naomi Stocks (Clerc)<br><br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br><br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br><br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o’r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1. 1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

## 2 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
- Tracey Burke, Cyfarwyddwr, Strategaeth
- Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi
- Maureen Howell, Dirprwy Gyfarwyddwr, Cydraddoldeb a Ffyniant

2.2 Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith i:

- ddarparu gwybodaeth am y Cod Ymarfer ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi yn gynnar yn y broses o lunio’r cod hwn;
- darparu ffigurau o'r gwaith ymchwil a wnaed yn ddiweddar ynghylch tan-hawlio budd-daliadau ar gyfer y ddau gyfnod ariannol diwethaf o leiaf;
- darparu unrhyw dystiolaeth yn deillio o'r gwerthusiad o'r Rhaglen Esgyn a Chymunedau am Waith. Os nad oes tystiolaeth ar gael, cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i egluro pa waith gwerthuso fydd yn cael ei wneud;
- darparu nodyn ar Fond Lles Cymru;
- darparu linc i'r adroddiad ar drydedd flwyddyn Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, sy'n cynnwys ystadegau perthnasol ar dlodi plant;

- ymchwilio i'r mater o absenoldeb a nodwyd gan Joyce Watson AC wrth drafod caffael moesegol; a
- darparu'r dangosfwrdd data a ddefnyddiwyd i werthuso cynnydd polisïau a rhaglenni.

2.3. Cafwyd datganiad o fuddiant gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith ynghylch peilot y clybiau cinio a hwyl yn ystod gwyliau'r haf oherwydd ei fod yn rhan o'r gwaith o lunio'r maniffesto a oedd yn cynnwys yr addewid hwn.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Gohebiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

3.1.a Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynghylch ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 5 Craffu ar waith Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith - trafod tystiolaeth o dan eitem 2

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2 a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith mewn perthynas â materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 6 Senedd@Casnewydd - Trafod yr opsiynau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y ffordd y bydd yn ymgysylltu â'r cyhoedd fel rhan o ddigwyddiad Senedd@Casnewydd a chytunodd ar y ffordd ymlaen.

## 7 Ymchwiliad i ffoaduriaid a cheiswyr lloches - Trafod y prif faterion

7.1 Trafododd y Pwyllgor y materion allweddol sydd i'w cynnwys yn ei adroddiad.